

# cta

community transport  
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## Cynllun Tro Da Benllech a'r Cylch

**Mae Cynllun Tro Da Benllech a'r Cylch yn cynorthwyo pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth trwy ddarparu cludiant i apwyntiadau iechyd, siopau a gweithgareddau, gan eu cadw mewn cysylltiad â'u cymuned leol.**

Maent yn darparu gwasanaeth 'o ddrws i ddrws' hanfodol o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9am a 5pm fel arfer, er bod rhywfaint o hyblygrwydd, yn dibynnu ar amgylchiadau unigolion a phryd mae gwirfoddolwyr ar gael.

Mae gan y cynllun dîm ymroddedig o 50 o wirfoddolwyr sy'n rhannu'r meddylfryd o fod eisiau 'gwneud tro da' â phobl eraill a allai fod angen help llaw syml ar adegau o salwch, profedigaeth neu drallod. Yn ogystal â darparu cludiant, mae gwirfoddolwyr yn helpu gyda nifer o bethau eraill a all wneud bywyd yn haws i rywun, o fynd â'u ci am dro, eu helpu gyda gohebiaeth, eu rhoi mewn cysylltiad â gwasanaethau allweddol, neu wneud dim mwy na bod yno i gael sgwrs.

“Heb gar, gall pobl gael eu hynysu yn gyflym a methu â chyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau sylfaenol,” meddai Bill Hadfield, Cadeirydd cynllun Tro Da Benllech a'r Cylch. “Pobl hŷn a rhai sydd â chyflyrau iechyd neu anawsterau symud sy'n cael y budd mwyaf o'n gwasanaeth. Mae ein gwirfoddolwyr hwythau yn hŷn, a gall y rolau gwirfoddoli rydyn ni'n eu darparu wella eu lles nhw hefyd a rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu cyfeillgarwch newydd, gan ddod â phobl ynghyd a meithrin gwell perthynas rhwng pobl ar draws y gymuned.

Mae sut y bydd pobl yn defnyddio ein gwasanaeth yn hyblyg - efallai mai dim ond yn achlysurol y bydd angen cludiant arny'n nhw neu efallai bod ei angen arny'n nhw bob wythnos. Rydyn ni'n ceisio meithrin perthynas dda gyda'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi fel y gallwn ni sylwi pryd mae angen ychydig o help ychwanegol arny'n nhw a naill ai darparu hyn ein hunain neu eu cyfeirio at sefydliadau lleol eraill.

Efallai nad yw rhoi 'help llaw' yn teimlo fel fawr o beth i ni, ond gall wneud gwahaniaeth enfawr i'r unigolyn o ran eu hymdeimlad o gael cymorth a'u gallu i barhau yn rhan o'u cymuned leol. Rwy'n gwybod o brofiad pam mor bwysig yw'r gwaith hwn - rwy'n yrrwr gwirfoddol fy hun ac yn gwrando ar y bobl rwy'n eu gyrru pan fyddant yn rhannu eu profiadau ynglŷn â'u hanhaswter i fynd o gwmpas y lle cyn iddynt gael gwasanaethau gennym ni.

Gall pobl fynd yn unig iawn os na allant fynd allan - maent yn hoff ohonon ni ac yn ymddiried ynon ni oherwydd ein bod yn adnabyddus yn lleol ac oherwydd ein bod yn cynnig gwasanaeth cyfeillgar, amyneddgar a chysurlon. Heb don ni, does wybod beth fyddai pobl yn ei wneud - byddai'n rhaid i rai fynd i gartrefi gofal. Mae cludiant yn eithriadol bwysig o ran helpu pobl i barhau'n annibynnol.

Mae ein gwasanaeth wedi cael ei gynnal yn llwyddiannus ers blynyddoedd lawer, ac mae codi arian yn rhywbeth sy'n mynd ag amser di-ben-draw, yn enwedig gan ein bod ni i gyd yn wirfoddolwyr, ac mae mwy o gystadleuaeth am gyllid nawr hefyd.

**Ond trwy weithio gyda Thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru CTA, llwyddwyd i sicrhau £10,000 gan Arian i Bawb tuag at ein costau cynnal. Mae'r gwasanaethau y bydd y cyllid hwn yn eu cefnogi yn eithriadol o bwysig i'r gymuned yn Benllech a byddant yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau llu o bobl. "**

"Mae Cynllun Tro Da Benllech yn mynd â fi i weld fy ngŵr yn y Cartref Nyrsio bob wythnos," meddai un defnyddiwr, "ac yn mynd â fi i siopa pan fydd angen. Hebbyd nhw, fyddwn i ddim yn gallu mynd o gwmpas y lle a chadw fy annibyniaeth, maen nhw'n bwysig iawn i mi. "

---

## Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

**Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn [ctauk.org/cciw-cymraeg](http://ctauk.org/cciw-cymraeg).**

